# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**BWRDD PENSIWN**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MERCHER, 13EG MAWRTH, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon,**

**Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 6 Mawrth 2019)

# BWRDD PENSIWN

# AELODAETH

## CYNRYCHIOLWYR CYFLOGWR

Anthony William Deakin (Cartrefi Conwy)

Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Cyng Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

## CYNRYCHIOLWYR AELODAU

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Mon gynt)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Sharon Warnes (wedi ymddeol - Cyngor Gwynedd gynt)

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 13.12.18 fel rhai cywir

**5. COFNODION Y PWYLLGOR PENSIYNAU** 9 - 12

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 21.01.2019

**6. PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU: BUDDSODDIADAU ECWITI** 13

I ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**7. ADRODDIAD Y BWRDD AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN 2018/19** 14 - 18

I ystyried yr adroddiad

**8. CYNHADLEDD LAPFF**

I dderbyn adolygiad ar lafar o'r gynhadledd

**9. RHAGLEN WAITH 2019/2020** 19 - 20

I ystyried adroddiad Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Systemau

**BWRDD PENSIWN, 13.12.18**

**Yn bresennol**: Anthony Deakin (Cartrefi Conwy) (Cadeirydd), Cynghorydd Aled Evans (Cyngor Gwynedd), H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun).

**Eraill a wahoddwyd:** Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau).

**Swyddogion**:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) (eitemau 1-8), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) (eitemau 1-6), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), Meirion Jones (Uwch Swyddog Cyfathrebu Pensiynau) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Sharon Warnes fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen, oherwydd ei bod yn aelod o Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Nodwyd bod Tony Deakin a Sharon Warnes wedi eu dewis, yn y cyfarfod blaenorol ar 16 Gorffennaf 2018, i fynychu Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL a gynhelir ym Mryste ar 17 - 18 Ionawr 2019. Eglurwyd nad oedd Sharon Warnes yn gallu mynychu'r gynhadledd ac fe anfonwyd at aelodau'r Bwrdd i ddatgan os oeddent yn dymuno mynychu'r gynhadledd. Cafwyd trafodaeth a daethpwyd i'r casgliad bod yr archeb yn cael ei ganslo.

Cyfeiriodd H. Eifion Jones at y ffaith nad oedd eitem ar y rhaglen o ran adrodd yn ôl o gynadleddau, nododd ei fod wedi mynychu Cynhadledd Flynyddol Fforwm Cronfa Pensiwn Awdurdod Lleol yn Bournemouth ar 5 – 7 Rhagfyr 2018. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod eitem o ran adrodd yn ôl o gynadleddau ar raglen cyfarfod y Bwrdd Pensiwn yn achlysurol.

Nododd yr aelod ei fod wedi anfon copi o gyflwyniadau PowerPoint o'r gynhadledd at y Pennaeth Cyllid a'r Cadeirydd gan nodi ei fod wedi mwynhau yn fawr iawn sesiwn gyda chyn cyflogai Banc Barclays.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid mai mater i unigolion oedd pe dymunent adrodd yn ôl o gynadleddau. Ychwanegodd ei fod wedi derbyn ebost gan Hymans yn amgau adroddiad yn crynhoi cyflwyniadau cynhadledd Bournemouth, ac y byddai'n ei anfon ymlaen i'r aelodau.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2018 fel rhai cywir, yn ddarostyngedig i ddiwygio pwynt bwled 3 o dan eitem 10 – 'Diweddariad Cyffredinol am Weinyddiaeth Pensiynau' ar dudalen 5 i ddarllen:

- Bod angen cyflwyno trefniadau cosbi os oes rhai ***cyflogwyr*** yn parhau i greu gwaith ychwanegol. Ystyriwyd bod hwn yn eitem i'r Pwyllgor ei ystyried.

Pwysleisiwyd mai er mwyn cadarnhau cywirdeb yn unig 'roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol gerbron.

**5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU**

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2018.

Cyfeiriodd aelod at Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn gan nodi'r bwriad i edrych i fuddsoddi yng Nghymru yn unol ag ail egwyddor y Datganiad Strategaeth Buddsoddi, a fyddai Partneriaeth Pensiynau Cymru yn ystyried buddsoddi yn y farchnad dai. Nododd ei bod wedi mynychu cynhadledd tai yn ddiweddar a bod Cadeirydd Bwrdd Pensiwn yn Lloegr yn nodi yn bendant y dylai'r Gronfa fuddsoddi yn y farchnad dai. Ymhelaethodd fel rhan o Gynllun Twf Economaidd Gogledd Cymru bod cyfleoedd i gydweithio efo eraill o ran buddsoddi yn y datblygiadau a fyddai'n deillio o'r cynllun.

Nododd aelod bod Cronfa Bensiwn Cyngor Manceinion yn buddsoddi yn y farchnad dai tra bod Cyngor Warrington yn benthyca o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), yn hytrach na buddsoddi arian y Gronfa Bensiwn. Ychwanegodd ei fod yn fater oedd angen sylw gan y Pwyllgor Pensiynau.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2018 wedi mabwysiadu Datganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn. Nododd y byddai materion yn codi yn y misoedd nesaf o ran cyfleoedd i fuddsoddi yn y dyfodol, gan nodi'r angen i weld y dychweliadau yn glir. Ymhelaethodd y byddai'r materion hyn yn derbyn sylw gan Bartneriaeth Pensiynau Cymru, yn hytrach na Pwyllgor Pensiynau Gwynedd.

Nododd aelod ei fod yn bwnc cymhleth ac mai cydweithio efo eraill drwy Bartneriaeth Pensiynau Cymru oedd y ffordd ymlaen.

Nododd aelod y byddai buddsoddi mewn tai fforddiadwy o fudd i aelodau'r Gronfa.

**6. PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2018/19**

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi adroddiad a oedd yn manylu ar y drefn o fonitro perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn hyd ddiwedd Ail Chwarter 2018/19.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid sylw at graff ar dudalen 13 y rhaglen a oedd yn dangos perfformiad chwarterol cronnus 3 mlynedd gymharol fesul rheolwr am y cyfnod 2015-18. Ymhelaethodd bod y sefyllfa yn eithaf derbyniol a'r perfformiad yn galonogol wrth gymharu'r gyfradd enillion gyda'r meincnod.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**7. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU**

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y 6 mis diwethaf ynghyd a gwybodaeth am y gwaith a gyflwynwyd dros y cyfnod,

diweddariad ar wahanol brosiectau, newidiadau yn y rheoliadau a rhestr o'r heriau yr oedd yr Uned Weinyddu yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nododd aelodau y prif sylwadau canlynol:

- Diolch am waith y swyddogion o ran cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG) gan weithio fel tîm i gyrraedd y nôd. Roedd rhai o'r cronfeydd pensiwn ar ei hôl hi o ran cwblhau'r gwaith.
- O ran adnodd staffio, a fyddai'r swyddi dros dro yn parhau ar y strwythur staffio?
- Cefnogaeth gan aelodau'r Bwrdd o ran ychwanegu i'r strwythur staffio.
- A oedd dyddiad terfynol parthed datrys y 119 achos o weddwon a ddynodir fel achosion 'heb ddatrysiad' gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)?
- Pan ddatrysir yr achosion a fyddai effaith ar unigolion?
- Nid oedd risg i'r Gronfa gan fod yr ymholiadau wedi eu cyflwyno i CThEM.
- A oedd holl aelodau'r Gronfa wedi derbyn Datganiad Buddion Blynyddol?
- Bod Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn mynd trwy broses caffael ar gyfer datblygu system i gynnal gwiriad cydymffurfiaeth o'r rheolwyr asedau a oedd wedi ymrwymo i God Tryloywder Bwrdd Cynghori'r Cynllun. Bwriedir i'r system fod yn fyw erbyn Ebrill 2019 ac fe ddylid edrych i mewn i'r datblygiad. Byddai o fudd i aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn cyflwyniad gan Hymans.
- O ran ansawdd data, fe ddylai gael ystyriaeth gan y Bwrdd.
- Pryder o ran olyniaeth gyda swyddogion profiadol yn agosáu at ymddeol.
- Croesawu y cyflwynir adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ar 21 Ionawr 2019 o ran ychwanegu swyddi i'r strwythur staffio.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:

- Bod cronfeydd pensiwn eraill wedi talu asiantaethau/cyfrifwyr allanol ar gost uchel i gwblhau'r gwaith o gysoni IPG. Bod y Gronfa yn ffodus y llwyddwyd i gwblhau'r gwaith yn fewnol am bris rhesymol.
- Cyflwynir adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ar 21 Ionawr 2019 yng nghyswllt ychwanegu y 3 swydd dros dro i'r strwythur staffio yn barhaol.
- Gwerthfawrogiad o gefnogaeth aelodau'r Bwrdd o ran ychwanegu at y strwythur staffio.
- Bod y 119 achos 'heb ddatrysiad' wedi eu cofrestru efo CThEM gyda amserlen i CThEM datrys yr achosion erbyn 31 Mawrth 2019, ond efallai y byddai llithriad yn yr amserlen.
- Pe ddarganfyddir bod gordaliad IPG, ni fyddai effaith ar unigolion gan nid oedd dim bai arnynt, a pe byddai tandaliad fe delir y swm.
- Bod Datganiad Buddion Blynyddol ar gael i aelodau'r Gronfa ar-lein, gyda 3 llythyr o ran cofrestru ar wefan Hunan Wasanaeth Aelodau wedi eu hanfon at aelodau. Pe byddai aelodau heb gofrestru ar-lein neu heb wneud cais i barhau i dderbyn copi papur, ni fyddent wedi derbyn eu datganiad. Mewn rhai achosion nid oedd cyflogwyr yn nodi dyddiad gorffen unigolyn mewn swydd, felly edrychir i mewn i'r achosion cyn gellir cynhyrchu Datganiad Buddion Blynyddol. Cynhelir sesiwn hyfforddi diwrnod llawn ar Rôl y Cyflogwr i gyflogwyr gan Swyddog Hyfforddiant y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar 31 Ionawr 2019.
- Bod datblygu system i gynnal gwiriad cydymffurfiaeth efo Cod Tryloywder Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn mynd i gael ei wireddu ond nid oedd y gofynion a'r disgwyliadau yn hysbys eto. Fe gedwir golwg ar y sefyllfa.
- Fe nodir ansawdd data yn fater i'w ystyried yn Rhaglen Waith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2019/20.
- Pan fo swyddogion yn ymddeol fe gollir profiad gyda llawer o waith hyfforddi swyddogion newydd.

- Bod angen adnodd staffio digonol er mwyn cyfarch y swmp gwaith a'i fod y flaenoriaeth uchaf.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**8. Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN LLYWODRAETHOL GWASANAETH CYHOEDDUS 2018**

Cyflwynwyd arolwg gan y Rheolydd Pensiynau i dderbyn mewnbwn y Bwrdd er mwyn cwblhau'r arolwg. Eglurwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 30 Tachwedd 2018, ond ymestynnwyd y terfyn amser gan y Rheolydd er mwyn derbyn mewnbwn y Bwrdd yn y cyfarfod hwn.

Cwblhawyd a chyflwynwyd yr arolwg ar-lein i wefan y Rheolydd Pensiynau yn ystod y cyfarfod.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y materion canlynol fel rhai oedd angen sylw:

- Trefniadau olyniaeth o ran staffio;
- Y 5 mater risg uchaf ar y gofrestr risg;
- Datblygu trefniadau cosbi cyflogwyr a oedd yn parhau i greu gwaith ychwanegol.

**9. ARDDANGOS Y SYSTEM HUNAN WASANAETH**

Nodwyd bod Aquila Heywood yn darparu system Hunan Wasanaeth Aelodau i'r Gronfa Bensiwn. Eglurwyd bod y cwmni wedi datblygu fersiwn newydd o'r system gyda rhyngwyneb newydd sbon. Nodwyd bod y Pwyllgor Pensiynau, yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2018, wedi cymeradwyo cyllid i uwchraddio i'r fersiwn newydd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt lle byddai'r data yn cael ei gadw, nododd y Rheolwr Pensiynau bod trafodaethau yn parhau gyda Aquila Heywood o ran lletya'r system a disgwylir am gostau diwygiedig, gyda'r gobaith y byddai'r system yn fyw yn gynnar yn 2019.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.00pm

**PWYLLGOR PENSIYNAU 21.01.2019**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Simon Glyn, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Peter Read, John Pughe Roberts (Cadeirydd), Robin Williams (Cyngor Môn) a Hywel Eifion Jones (Bwrdd Pensiynau - Arsylwi)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Uwch Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy) a John Brynmor Hughes.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 8fed o Dachwedd 2018 fel rhai cywir.

**5. IS GRONFA INCWM SEFYDLOG**

Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried is-gronfeydd ar gyfer asedau 'incwm sefydlog' fel opsiynau er mwyn i Gronfa Bensiwn Gwynedd fuddsoddi drwy Bartneriaeth Pensiynau Cymru. Eglurwyd, fel mesur wrth gefn, fod gan Cronfa Bensiwn Gwynedd fynediad at asedau 'incwm sefydlog' goddefol drwy'r cytundeb buddsoddiadau goddefol.

Nodwyd, mewn cyfarfod o'r Panel Buddsoddi ar 15/11/2018 cyflwynwyd gwybodaeth ac arweiniad i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ynglŷn ag is-gronfeydd Partneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer asedau 'incwm sefydlog' a thrafodwyd yr opsiynau posib. Awgrymwyd y byddai cyfle i drosglwyddo asedau i bortffolios gweithredol y Bartneriaeth ar ddechrau Haf 2019.

Gyda dewis posib o ddosbarthu asedau rhwng pedwar math o is-gronfa incwm sefydlog, casgliad aelodau'r Panel Buddsoddi oedd y byddai'r Gronfa Dychweliadau Absoliwt a Chronfa Credyd Aml Ased o ddiddordeb i Wynedd ar adeg lansio'r is-gronfeydd Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Cyflwynwyd crynodeb o'r opsiynau posib fel atodiad eithriedig i'r adroddiad ac felly, fel bod modd i'r aelodau eu trafod mewn manylder, penderfynwyd, **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** oherwydd bod budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored

ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Roedd yr atodiad ynglŷn â threfniadau buddsoddi sydd yn fasnachol sensitif a chyfrinachol i'r cwmni dan sylw. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu tanseilio hyder darparwyr i ddod a phrisiau ymlaen gerbron y Cyngor ac felly gallu'r Cyngor i fuddsoddi yn llwyddiannus. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth;

- Roedd aelodau'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi barn swyddogion ac arbenigwyr Hymans a Russell yn y maes, ac am ddilyn yr awgrym gyflwynwyd.
- Roedd aelodau'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio gyda rheolwyr newydd, ynghyd a'r posibilrwydd o gadw asedau gydag un o reolwyr cyfredol Cronfa Gwynedd.
- Er nad oes bwriad i Gronfa Gwynedd drosglwyddo asedau i Gronfa Credyd Byd Eang, gofynwyd i'r Cadeirydd amlygu egwyddorion buddsoddi cyfrifol perthnasol yng nghyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiynau Cymru.

**PENDERFYNWYD –**

a) **Yn unol â'r cynnig, yn gyffredinol i ail-fuddsoddi asedau incwm sefydlog cyfredol Cronfa Gwynedd yn is-gronfa Dychweliadau Absoliwt Partneriaeth Pensiynau Cymru, ac i ail-fuddsoddi asedau ecwiti neilltuwyd am y tro er mwyn lleihau risg yn is-gronfa Credyd Aml Ased Partneriaeth Pensiynau Cymru.**

b) **Gan nad oedd holl reolwyr buddsoddi is-gronfeydd Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi eu cadarnhau'n derfynol eto, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i benderfynu ar y dyraniadau terfynol rhwng yr is-gronfeydd, gan dilyn barn ac arweiniad pellach gan arbenigwyr, fel bo angen.**

Gwahoddwyd y wasg ar cyhoedd yn ôl i'r cyfarfod

## 6. BENTHYG GWARANT

Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor gytuno i Bartneriaeth Pensiynau Cymru gytuno i fenthyg gwarant fel cyfle i gynyddu incwm o ecwiti yn y cronfeydd.

Amlygwyd byddai raid i bob cronfa Cymreig sydd yn rhan o Bartneriaeth Pensiynau Cymru gytuno i'r cynnig cyn gweithredu.

Cyfeiriwyd at ddogfen gan Hymans Robertson oedd ynghlwm â'r adroddiad, yn rhoi trosolwg ac eglurhad o'r broses, pam y byddai buddsoddwyr yn benthyg stoc, a'r risgiau sydd ynghlwm â hynny

Nododd yr aelodau bod y cynnig yn gyfle diddorol gyda risg isel, yn fodd o dderbyn ychydig o enillion i'r gronfa tra'n lleddfu'r risg drwy warant.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfyngu swm buddsoddiad perthnasol y Gronfa, ac os oes uchafswm wedi ei osod, nodwyd y byddai modd gofyn y cwestiwn yng nghyfarfod nesaf Cydbwyllgor Partneriaeth Pensiynau Cymru.

**PENDERFYNWYD, bod Cronfa Bensiynau Gwynedd yn cytuno i Bartneriaeth Pensiynau Cymru fenthyg stociau o'r is gronfeydd.**

## 7. BWRDD YMGYNGHOROL Y CYNLLUN: RHEOLI COSTAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad yn crynhoi argymhellion arfaethedig Bwrdd Cynghori'r Cynllun fyddai'n dychwelyd cyfanswm cost y cynllun at ei darged gost o 19.5% (amcangyfrifir mai 19.0% yw gwir gost y cynllun ar hyn o bryd). Nodwyd bod rhaid gwneud newidiadau i fuddion os am gyrraedd 19.5% a chyflwynwyd pecyn o argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Tachwedd 2018. Ategwyd bod cyngor cyfreithiol a barn Actiwari'r Llywodraeth wedi ei ystyried gan y Bwrdd cenedlaethol.

Amlygwyd y prif newidiadau a thynnwyd sylw at effeithiau ariannol y pecyn. Byddai'r penderfyniad terfynol ar y pecyn o welliannau yn cael ei wneud gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, gydag ymgynghoriad byr yn debygol o gael ei' gynnal ar ddechrau'r Gwanwyn, er mwyn i'r gwelliannau fod yn effeithiol erbyn Ebrill 2019.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gosodiad targed o 19.5%, nodwyd bod y targed wedi ei osod gan Lywodraeth San Steffan mewn cytundeb cenedlaethol gydag Undebau llafur perthnasol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth;

- Er y gost i'r gronfa ac i'r cyflogwyr, byddai'r addasiadau o fudd i'r cyfranwyr.
- Pryder am yr effaith ar gyflogwyr bychain.
- Pryder na all cyflogwyr bychain fforddio'r newidiadau, ac felly yn cael eu rhoi dan bwysau i ganfod cynllun gwahanol.
- Pryder y byddai'r gronfa yn colli aelodau.
- Derbyn mai arweiniad cenedlaethol sydd yma, ond rhaid pwyso a mesur yn ofalus.

**PENDERFYNWYD gwneud cais i'r Pennaeth Cyllid a'r Cadeirydd gyflwyno sylwadau am bryderon yr aelodau i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth San Steffan ac i'r Bwrdd Cynghori cenedlaethol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, pryd bydd ymgynghoriad ar hyn.**

## 8. STAFFIO UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

**Ymneilltuodd Meirion Jones (Uwch Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau) o'r ystafell yn ystod y drafodaeth ganlynol.**

**Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo adnoddau ychwanegol i alluogi'r Uned Gyllid i sefydlu strwythur staff gwydn ar gyfer yr Uned Bensiynau mewn ymateb i ofynion cynyddol i weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ategwyd bod y strwythur arfaethedig yn cyd-fynd gyda strwythur rheolaethol y Cyngor a bod y swyddi wedi eu harfarnu. Nodwyd bod canran staff yr Uned yn hŷn a bod angen sefydlu cynllun dilyniant.**

**Sylwadau yn codi o'r drafodaeth;**

- **Bod graddfeydd cyflog yr Uned yn is na rhai cronfeydd eraill.**
- **Bod y tîm yn llai na'r hyn sydd gan gronfeydd eraill.**
- **Bod y strwythur presennol yn un hanesyddol.**
- **O ran rheoli risg, rhaid cynllunio dilyniant.**

**PENDERFYNWYD,**

- **Cymeradwyo'r cynnydd mewn gwariant a gyllidwyd er mwyn galluogi'r Adran Gyllid i sefydlu strwythur staff mwy cadarn ar gyfer yr Uned Bensiynau ar gost ychwanegol o £121,120.**
- **Gofyn i'r Pennaeth Cyllid weithredu strwythur staffio diwygiedig priodol ar gyfer yr Uned Bensiynau cyn gynted â phosib sy'n ymarferol, er mwyn rheoli risgiau busnes a phwysau gwaith.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 3:00pm

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **13 MAWRTH 2019** |
| TEITL: | **PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU: BUDDSODDIADAU ECWITI** |
| PWRPAS: | **I hysbysu aelodau'r Bwrdd am drosglwyddiad portfolio ecwiti Cronfa Gwynedd i gronfeydd newydd Partneriaeth Cymru** |
| AWDUR: | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2019, cafodd y cronfeydd ecwiti byd-eang Partneriaeth Pensiynau Cymru ei ysgogi a trosglwyddodd saith o gronfeydd Cymru ddaliadau ecwiti perthnasol i'r pŵl buddsoddi.

## 2. Buddsoddiadau Ecwiti

Trosglwyddodd Cronfa Gwynedd symiau cyfartal i'r ddwy gronfa a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cymru, fel y ganlyn:

- LF Wales PP Global Growth Fund (Class A Income)
  (Baillie Gifford, Veritas a Pzena)

- LF Wales PP global Opportunities Equity Fund (Class A Income)
  (Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWG ac Oaktree)

Bydd y trosglwyddiadau nesaf ar gyfer ecwiti mewn rhanbarthau penodol o'r byd (y DU ac Ewrop) ac nid oes gan Gronfa Bensiwn Gwynedd fuddsoddiadau yn y rhanbarthau rheiny.

Bydd y trosglwyddiadau nesaf i Wynedd yn y categori asedau incwm sefydlog, a disgwylir i hynny ddigwydd yn haf 2019. Bydd hyn yn cynnwys trosglwyddo ein buddsoddiadau gyda chwmni Insight i gronfeydd bydd Partneriaeth Cymru yn darparu.

## 3. Casgliad

Aeth trosglwyddiad mis Ionawr yn rhwydd, ac mae'r buddsoddiadau yn y ddau gronfa wedi cadw eu gwerth trwy'r trawsnewidiad.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Bwrdd Pensiynau** |
| Dyddiad: | **13 Mawrth 2019** |
| Teitl: | **Adroddiad drafft Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau am 2018/19 ar gyfer adroddiad cyffredinol blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd** |
| Pwrpas: | **Cynorthwyo'r Cadeirydd i gwblhau'r adroddiad blynyddol** |

**Cyflwyniad**

1. Mae'n ofynnol i Gadeirydd y Bwrdd Pensiynau gyflwyno adroddiad blynyddol, fel rhan o adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn, sydd i'w gyflwyno i gyfarfod blynyddol y Gronfa ym mis Hydref 2019.

2. Mae'r adroddiad drafft hwn (gweler Atodiad A) wedi ei baratoi ar ran y Cadeirydd, sy'n gwahodd aelodau'r Bwrdd i gyfrannu ychwanegiadau neu welliannau i'w adroddiad blynyddol.

**Amserlen**

3. Yn ymarferol, bydd angen adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Ebrill. Mae hyn yn gynharach na'r blynyddoedd blaenorol gan fod archwilwyr Deloitte angen i ni ddarparu Adroddiad Blynyddol y Gronfa erbyn mis Mai 2019.

4. Bydd cyfarfod blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cymryd lle ar 24 Hydref, yn Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon, ac mae gwahoddiad i **holl** aelodau'r Bwrdd fynychu.

**Cynnwys yr adroddiad drafft**

5. Mae'r adroddiad drafft atodol wedi'i ysgrifennu yn unol â gosodiad adroddiad cyfatebol 2017/18, gyda nifer o ddatganiadau ffeithiol heb newid ar gyfer adroddiad 2018/19.

6. Fodd bynnag, mae'r cynnwys yn adlewyrchu'r pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn 2018/19.

**Casgliad**

7. Gofynnir i aelodau'r Bwrdd i ystyried cynnwys yr adroddiad drafft, trafod ei gynnwys, a chynnig gwelliannau yn y cyfarfod ar 13 Mawrth 2019.

**Atodiad A**

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2018/19 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2019)

## Cefndir / Cyfansoddiad

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun (sef staff sy'n cyfrannu tuag at bensiwn a rhai sydd wedi ymddeol ac yn derbyn pensiwn).

Dros y cyfnod rhwng 1 Awst 2018 a 31 Mawrth 2019, mae'r Bwrdd wedi cwrdd dwywaith. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel sylwedydd i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, ac mae sawl aelod o'r Bwrdd wedi cymryd y rôl hon yn eu tro, er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â cyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, lle bu'n atebol, gyda swyddogion, am lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa. Ar adegau, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'w barn ac argymhellion gael eu cyflwyno'n swyddogol am ystyriaeth y Pwyllgor.

## Swyddogaeth y Bwrdd

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddol (Cyngor Gwynedd) i:

i. sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r C.P.Ll.L., a

ii. sicrhau cydymffurfiad gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol.

Felly, corff monitro, cynorthwyo ac adolygu yw'r Bwrdd, nid corff penderfynu / rheoli.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan cylch gorchwyl a gytunwyd gan Cyngor Gwynedd (mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5$^{ed}$ o Fawrth 2015.
Mae'n cael cefnogaeth gan nifer o swyddogion, gan gynnwys Swyddog Cefnogi Aelodau, y Pennaeth Cyllid, y Rheolwr Buddsoddi, y Rheolwr Pensiynau, ac Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Systemau y Gronfa.

## Gwaith y Bwrdd

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur i'r staff uwch yr Awdurdod Gweinyddol gyda'r prosiect pŵlio buddsoddiadau yn cymryd blaenoriaeth. Felly, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ceisiadau i swyddogion baratoi adroddiadau ar gyfer y Bwrdd.

## Presenoldeb

| | 13/12/2018 | 13/03/2019 |
|---|---|---|
| **Anthony Deakin** | ✓ | |
| **Cynghorydd Aled Evans** | ✓ | |
| **H. Eifion Jones** | ✓ | |
| **Osian Richards** | ✓ | |
| **Huw Trainor** | ✓ | |
| **Sharon Warnes** | ✓ | |

## Cynllun Gwaith

Yn unol a'r cynllun gwaith a gytunwyd yn y flwyddyn flaenorol, derbyniwyd adroddiadau ar y materion canlynol:

- Perfformiad buddsoddi'r Gronfa Bensiwn
- Gweinyddiaeth Pensiwn
- System Hunan Wasanaeth Aelodau
- Partneriaeth Pensiwn Cymru

Yn ystod trafodaethau, rhoddwyd mewnbwn a cyflwynwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r Bwrdd sydd wedi cynorthwyo swyddogion yr awdurdod gweinyddol i gwblhau eu gwaith.

Hefyd, mynychodd aelodau'r Bwrdd gyfarfod blynyddol y Gronfa ym mis Medi 2018, a nodwyd y bu perfformiad hynod foddhaol, o'i gymharu â chronfeydd C.P.Ll.L. eraill.

Cwblhaodd y Bwrdd arolwg trefn lywodraethol gwasanaeth cyhoeddus y Rheolydd Pensiynau. Roedd yr arolwg yn gymysgedd o gwestiynau ffeithiol ac arolwg barn. Yn dilyn trafodaeth rhwng aelodau'r Bwrdd, cyflwynwyd yr arolwg i'r Rheolydd o fewn y terfyn amser penodol.

Bydd y cynllun gwaith ar gyfer 2019/20 yn cynnwys:

- Diweddariad i'r Gofrestr Risg
- Prisiant y Gronfa 2019
- Diweddariad Cyffredinol am Weinyddiaeth Pensiynau
- System 'Hunan Wasanaeth Aelodau' newydd

- Y wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Diweddariad am berfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd

**Hyfforddiant**

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd cafodd pob aelod o'r Bwrdd fanylion am y C.P.Ll.L. a'i weinyddiaeth yng Ngwynedd mewn cyflwyniadau amrywiol gan y Pennaeth Cyllid, y Rheolwr Buddsoddi, y Rheolwr Pensiynau, ac Uwch Swyddog Cyfathrebu'r Gronfa.

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd / cyflwyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cynhadledd Llywodraethu CPLlL ym Mryste
Cynhadledd LAPFF yn Bournemouth
Seminar Bwrdd Pensiwn CIPFA yn Lerpwl a Chaerdydd
Cynhadledd Pensiwn Blynyddol CIPFA yn Llundain

**Angen ychwanegu mwy yma** am yr hyfforddiant / cyfarfodydd / cynhadleddau mae aelodau'r Bwrdd wedi mynychu

**Diolch**

Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch ei gyd-aelodau ar y Bwrdd, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r rolau, ac i'r swyddogion perthnasol am eu cefnogaeth.

| Cyfarfod: | Bwrdd Pensiwn |
|---|---|
| Dyddiad: | 13/03/2019 |
| Teitl: | Y Rhaglen Waith Diwygiedig |
| Pwrpas: | Llunio'r Rhaglen Waith am y flwyddyn 2019/20 |
| Awdur: | Meirion Jones, Arweinydd Tim Cyfathrebu a Systemau |

**1. Cyflwyniad**

Yn dilyn gosod y rhaglen waith olaf ym mis Chwefror 2018 mae angen nawr awgrymiadau ar gyfer eitemau i'w cynnwys ar gyfer y cynllun gwaith 2019/2020

**2. Rhaglen Waith drafft**

Mae'r rhaglen waith isod wedi'i ddrafftio ac mae'n cynnwys y materion a nodwyd yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd blaenorol a materion sy'n codi.

**RHAGLEN WAITH 2018/19**

**Ebrill 2019**

- Adroddiad y Bwrdd ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Gronfa Bensiwn
- Diweddariad am berfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau
- Diweddariad i'r Gofrestr Risg
- Diweddaru'r Rhaglen Waith

**Gorffennaf 2019**

- Diweddariad Cyffredinol am Weinyddiaeth Pensiynau
- Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn
- Cyfathrebu â Chyflogwyr - Cyflwyno data yn brydlon ac yn gywir
- Prisiant y Gronfa 2019
- System 'Hunan Wasanaeth Aelodau' newydd

- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau
- Materion o’r Gynhadledd ‘Ymddiriedolwyr’ CPLlL
- Y wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaeth Pensiwn Cymru

**Rhagfyr 2019**

- Diweddariad am berfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Diweddariad ar y broses Prisiant
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau a’r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Diweddariad Llywodraethu / Materion o’r Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun
- Arolwg Trefn Llywodraethol y Rheolydd Pensiynau

**Mawrth 2020**

- Diweddariad Cyffredinol am Weinyddiaeth Pensiynau yn cynnwys Cwynion am Weinyddu Pensiynau 2019
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau
- Y wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Materion o’r gynhadledd LAPFF

Gellir ychwanegu materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn i'r rhaglen fel bo'r angen. Diau y bydd syniadau gan aelodau sydd wedi mynychu hyfforddiant a digwyddiadau perthnasol.

**3. Argymhelliad**

Gofynnir i aelodau’r Bwrdd ystyried y rhaglen uchod ac awgrymu eitemau ychwanegol neu newidiadau.